**Rhif: 1**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C18/0796/11/R3** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **11/09/2018** |
| **Math y Cais:** | **Rheol 3** |
| **Cymuned:** | **Bangor** |
| **Ward:** | **Glyder** |
| **Bwriad:** | **Dymchwel yr ysgol gynradd bresennol a chodi ysgol gynradd newydd yn ei le gan gynnwys rhodfeydd newydd, caeau chwarae a gwaith cysylltiedig** |
| **Lleoliad:** | **Ysgol y Garnedd, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2LX** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATAU GYDAG AMODAU** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Mae’r cais hwn ar gyfer adeiladu ysgol newydd ar gyfer 420 o ddisgyblion i gymryd lle adeilad presennol Ysgol y Garnedd, Penrhosgarnedd (sydd a chapasiti ar gyfer 210 o ddisgyblion). Fe fyddai’r datblygiad yn cynnwys ymestyn safle Ysgol y Garnedd i gynnwys rhan o gae chwarae Ysgol Friars. Fe godir yr ysgol newydd ar safle sydd ar hyn o bryd yn ffurfio rhan o safle Friars tra defnyddir safle’r ysgol sydd i’w dymchwel ar gyfer creu caeau chwarae a maes parcio.

1.2 Bydd dwy ran i safle’r ysgol, sef y rhan orllewinol sydd ar hyn o bryd yn cynnwys yr adeilad ysgol, caban symudol a’i defnyddir gan yr ysgol feithrin, maes chwarae caled a chaeau chwarae cysylltiedig. Mae’r rhan hon yn ffinio gyda gerddi tai i’r de a’r gorllewin tra i'r dwyrain mae coetir ac i'r gogledd mae gwarchodfa natur. Rhan ddwyreiniol y safle sydd ar feysydd chwarae Ysgol Uwchradd Friars ac mae'r ardal hon yn gymharol wastad gyda llethr i'r gogledd sy’n codi mewn arglawdd ar hyd ymyl y safle. Mae'r ardal yn ffinio â choetir i'r gorllewin, gerddi tai i'r de a thiroedd Ysgol Friars i'r gogledd a'r dwyrain. Bydd llwybr mynediad yn cael ei greu i gysylltu dwy ran y safle, gan basio coetir gwlyb sy'n cefnu ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Eithinog.

1.3 Bydd yr ysgol newydd yn cynnwys:

- Derbynfa ac ardal weinyddol
- Neuaddau mawr a bach (a ellid eu cyfuno) â chegin gyfagos
- Ystafell ar gyfer y Cylch Meithrin
- Ystafell Ddosbarth Meithrin
- Dau ddosbarth ar gyfer pob grŵp blwyddyn o'r Derbyn hyd at Flwyddyn 6
- Ystafelloedd dosbarth ADY penodol
- Ystafell grŵp / gwyddoniaeth bwyd a llyfrgell
- Ystafell TGCh
- Gofodau addysgu atodol a mannau dysgu grŵp
- Lleoedd awyr agored ar gyfer pob dosbarth yn CA1
- Ystafelloedd hylendid, toiledau a chawodydd ar gyfer pob defnyddiwr
- Ystafelloedd cyfarpar ac ystafelloedd ategol

1.4 Cyflwynwyd y dogfennau isod i gefnogi’r cais:

- Arolwg Ecolegol
- Adroddiad Coed
- Strategaeth Ddraenio
- Asesiad Sŵn Amgylcheddol
- Asesiad Trafnidiaeth
- Adroddiad Ymgynghori Cyn-Cyflwyno Cais
- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Adroddiad Geo-amgylcheddol Cam 1 a Cham 2
- Adroddiad Mynediad i Rodfa Penrhos

- Adolygiad o Systemau Amgen
- Datganiad Dull Amgylcheddol (Drafft)
- Datganiad Dull Adeiladu (Drafft)
- Datganiad Dymuniad a Mynediad

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni’r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. (Gorffennaf 2017)**

ISA 2 : CYFLEUSTERAU CYMUNEDOL

ISA 4 : DIOGELU LLECYNNAU AGORED PRESENNOL

PS 4 : TRAFNIDIAETH GYNALIADWY, DATBLYGIAD A HYGYRCHEDD

PS 6 : LLINIARU EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD AC ADDASU IDDYNT

TRA 2 : SAFONAU PARCIO

TRA 4 : RHEOLI ARDRAWIAD CLUDIANT

PCYFF 2: MEINI PRAWF DATBLYGU

PCYFF 3: DYLUNIO A SIAPIO LLE

PCYFF 4 : DYLUNIO A THIRWEDDU

PS 19 : GWARCHOD A LLE BO’N BERTHNASOL GWELLA’R AMGYLCHEDD NATURIOL

AMG 5 : CADWRAETH BIOAMRYWIAETH LEOL

AMG 6 : GWARCHOD SAFLEOEDD O ARWYDDOCÂD RHANBARTHOL NEU LEOL

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9 (2016)

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016)

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

C11/0614/11/R3: Ymestyn ac atgyweirio maes parcio presennol ynghyd â chreu arosfan bws a llwybr troed cysylltiol – Caniatawyd 05/09/11

C10A/0511/11/R3: Creu llwybr cerdded a beicio – Caniatawyd 25/11/10

C06A/0635/11/R3 - Gosod dosbarth symudol yn cynnwys gwaith draenio a thirlunio – Caniatawyd 10/10/06

C05A/0432/11/R3 - Newidiadau allanol– Caniatawyd 14/07/05

C02A/0376/11/R3 - Codi pâr o adeiladau symudol er mwyn i ddarparu dau ddosbarth a thoiledau - Caniatawyd 31/07/02

C98A/0132/11/R3 - Estyniad i'r ysgol– Caniatawyd 06/05/98

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Heb eu derbyn |
| Uned Trafnidiaeth: | Dim gwrthwynebiad ond gofyn am amodau safonol yn ymwneud â :<br>• Darparu'r rhwydwaith fyrdd/troedffyrdd/parcio yn unol â'r cynllun cyn defnyddio'r ysgol newydd<br>• Ddarparu mesurau arafu traffig (i'w gytuno gyda'r Uned Drafnidiaeth) ar ffordd Penrhos,<br>• Reoli symudiadau traffig adeiladu yn ystod cyfnodau penodol o'r dydd.<br><br>Yn ogystal argymhellir nodiadau safonol er sicrhau :<br>• Cynnal arolwg cyflwr ffyrdd cyn dechrau ar y gwaith adeiladu |

- Comisiynu archwiliad diogelwch ffyrdd *("road safety audit")* (cymal 2-4) er mwyn asesu ac addasu'r rhwydwaith ffyrdd a throedffyrdd a newid fel bo angen.

| | |
|---|---|
| Uned Llwybrau : | Sylwadau – Angen amod i sicrhau gwyriad priodol ar gyfer y llwybr cyhoeddus. Angen cadw'r llwybr answyddogol sy'n mynd o gwmpas y safle ar agor yn ystod y broses adeiladu. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Sylwadau – Gofyn am amodau :<br>1. Dylid cyflwyno Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (i gynnwys Cynllun Rheoli Gwastraff) cyflawn cyn dechrau'r datblygiad<br>2. Dylid dilyn argymhellion yr Arolwg Ecolegol |
| CADW : | Heb eu derbyn |
| Uned Bioamrywiaeth : | Sylwadau :<br>• Dylai'r mesurau a nodir yn rhan 11.0 yr adroddiad ecolegol gael eu dilyn yn union.<br>• Mi fydd angen derbyn cynlluniau yn dangos manylion yr holl waith lliniaru bioamrywiaeth cyn i'r gwaith gychwyn<br>• Dylid cynnwys amod fod canlyniad ail-arolwg ystlumod yn cael ei gyflwyno cyn i'r gwaith dymchwel yr hen ysgol fynd yn ei flaen.<br>• Mae angen cytuno Datganiad Dull Amgylcheddol cyn cychwyn ar y gwaith datblygu. |
| Gwarchod y Cyhoedd : | Heb eu derbyn |
| Uned Goed : | Sylwadau - Mae'r adroddiad coed yn unol â BS 5837:2012 ac yn amlinellu'r broses o warchod coed a dylid dilyn ei argymhellion yn ystod y datblygiad. |
| Dŵr Cymru : | Sylwadau – Gofyn am amod er sicrhau na fydd dŵr wyneb /dŵr draenio tir yn arllwys i'r system carthffosiaeth cyhoeddus |
| Swyddog Tân : | Dim sylwadau i'w cynnig |

| | |
| --- | --- |
| Uned Draenio Tir : | Heb eu derbyn |
| Heddlu Gogledd Cymru : | Heb eu derbyn |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol : | Heb eu derbyn |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle, yn y wasg a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod cyhoeddusrwydd ar y cais cynllunio wedi dod i ben derbyniwyd y sylwadau isod yn gwrthwynebu'r datblygiad : |

- Pryder ynghylch sŵn ac ymyrraeth yn deillio o'r ysgol yn effeithio ar dai Ffordd Penrhos ynghyd a niwed i breifatrwydd – awgrymir bod angen ffens soled o amgylch yr ysgol yn hytrach na ffens wifren
- Pryder ynghylch draenio dŵr o'r safle ac na fydd y cwlfert newydd a fwriedir yn ddigonol i osgoi problemau llifogydd.
- Roedd pryderon eraill a godwyd yn ymwneud a'r bwriad i ddefnyddio Rhodfa Penrhos er mwyn sicrhau mynedfa gerbydol ar wahân yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae pryderon trigolion yn cynnwys:
    - Diogelwch trigolion Rhodfa Penhros gan nad oes palmant i wahanu cerddwyr o'r drafnidiaeth drom
    - Pryder na fydd gwasanaethau brys yn gallu cael mynediad ar hyd y rhodfa yn enwedig i'r hydrant tân sydd ger Rhif 6.
    - Nid ydyw wyneb y ffordd wedi ei adeiladu i gwrdd gyda gofynion trafnidiaeth adeiladu drwm - mae pibellau gwasanaeth carthffosiaeth a nwy dan yr wyneb ac mae perygl bydd niwed i'r rhain.
    - Pryderon ynghylch sŵn ac ymyrraeth yn ystod y cyfnod adeiladu a bod yr oriau gwaith a gynhigir (07:30 hyd 18:00 dydd Llun i Ddydd Gwener) yn ormodol
    - Pryderon iechyd oddi wrth ddeunydd gronynnol yn yr awyr.
    - Fe fyddai'r datblygiad yn niweidio naws anheddol yr ardal

Yn ogystal derbyniwyd y sylwadau isod nad ydynt yn ystyriaethau cynllunio materol :

- Nad ydyw defnyddio Rhodfa Penrhos yn addas o safbwynt ystyriaethau logistaidd a pheirianyddol
- Bod costau'r llwybrau mynediad yn ormodol
- Mae dyletswydd gofal ar y Cyngor dros drigolion y sir
- Fe ddylid defnyddio'r fynedfa bresennol i'r ysgol ar gyfer cael mynediad cerbydol i'r safle adeiladu
- Fe all defnyddio Rhodfa Penrhos achosi niwed strwythurol i'r tai ar hyd y stryd

Derbyniwyd yn ogystal gohebiaeth yn cefnogi'r datblygiad

Dylid nodi bod ymgynghoriad yn y wasg yn parhau ynghylch y gwyriad Llwybr 25 Dinas Bangor.

## 5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:

### Egwyddor y Datblygiad

5.1 Mae'n ofynnol gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLL) yw'r 'Cynllun Datblygu' mabwysiedig yn yr achos yma. Mae safle'r cais wedi ei leoli y tu fewn i ffin ddatblygu Canolfan Isranbarthol Bangor ac mae holl safle'r cais ar dir sydd eisoes mewn defnydd ar gyfer darparu addysg (Dosbarth Defnydd D1).

5.2 Y prif bolisi cynllunio sy'n berthnasol i'r cais hwn yw polisi ISA 2 y CDLL. Mae'r polisi hwn yn gefnogol o ddarparu cyfleusterau cymunedol newydd yn amodol a chwrdd â phum maen prawf. Fe asesir y datblygiad yng nghyd-destun y meini prawf hynny isod :

1. Mae'r maen prawf cyntaf yn gofyn bod safle wedi ei leoli o fewn neu'n gyfagos â ffin ddatblygu ac wrth ystyried bod y safle hwn o fewn ffin ddatblygu Bangor mae'r cynnig yn cwrdd gyda'r maen prawf hwn.
2. Yn ail, mae gofyn bod cynigion yn edrych yn gyntaf ar wneud defnydd deuol o gyfleusterau presennol neu drosi adeiladau presennol. Wrth ystyried mai diben y cais hwn yw darparu cyfleusterau gwell na'r hyn a ellid ei ddarparu yn yr adeilad presennol, o edrych ar gyflwr a natur yr ysgol bresennol, fe gredir ei fod yn rhesymol ceisio codi adeilad newydd wedi ei ddylunio'n bwrpasol ar gyfer gofynion addysgol ac amgylcheddol cyfoes.
3. Mae'r trydydd maen prawf yn gofyn, os yw'r cynnig am ail-leoli cyfleuster, y gellid dangos nad yw'r safle gwreiddiol bellach yn addas ar gyfer y defnydd hwnnw. Wrth ystyried na fyddai unrhyw newid defnydd

tir yn digwydd o ganlyniad i'r datblygiad hwn fe ellid dadlau mae dim ond symud cyfleusterau o fewn un safle addysgol mawr sy'n digwydd yma. Wedi dweud hynny, fe gredir, oherwydd graddfa'r adeilad ysgol newydd, ei fod yn gwbl resymol newid lleoliad yr adeilad i safle sy'n ddigonol i gwrdd â'r anghenion addysgol a'u rhagwelir.

4. Mae'r pedwerydd maen prawf yn gofyn bod graddfa a math y cynnig yn briodol ar gyfer yr anheddle dan sylw. Wrth ystyried bod y cynnig hwn yn deillio o'r prinder llefydd ysgol sydd ar gael ym Mangor a'r angen sydd wedi ei adnabod gan yr Awdurdod Addysg i ddarparu rhagor o lefydd ysgol yn ardal Penrhosgarnedd, fe gredir bod graddfa'r datblygiad hwn yn gwbl briodol ar gyfer ei leoliad.
5. Mae'r maen prawf olaf yn gofyn bod y cynnig yn hygyrch i ddulliau amgen o drafnidiaeth ac wrth ystyried ei leoliad yng nghanol cymuned Penrhosgarnedd fe ystyrir bod y safle'n hwylus iawn i'r rheini sydd am gerdded, beicio neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus i gyrraedd.

5.3 Wrth ystyried y drafodaeth uchod fe gredir bod y cynnig hwn yn cwrdd gyda holl feini prawf Polisi ISA 2 y CDLL.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.4 Yn gyffredinol, mae polisïau PCYFF 2 a PCYFF 3 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn annog caniatáu cynigion ar gyfer datblygiadau newydd cyn belled na fyddent yn cael effaith niweidiol ar iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol neu ar yr ardal yn gyffredinol.

5.5 Fe fyddai'r adeilad newydd yn cael ei godi ar ffurf pedol o amgylch iard chwarae galed. Fe fyddai'r adeilad yn ddeulawr yn bennaf gydag amrywiaeth o siapiau to a deunyddiau yn torri unffurfedd yr edrychiadau. Fe fyddai'r edrychiadau allanol yn cynnwys waliau cerrig ar y llawr gwaelod, paneli cyfansawdd metel lliw gydag amrywiaeth o liwiau a phroffiliau, toeau fetel proffil o liw sy'n ceisio adlewyrchu lliwiau toeau'r tai o amgylch, to o baneli ffotofoltaig ar lethr y neuadd sy'n wynebu'r de a ffenestri lliw llwyd cyson o wahanol feintiau ar draws y datblygiad.

5.6 Er i ôl troed yr ysgol newydd fod dros ddwbl yr ysgol bresennol bydd ei leoliad yn llai amlwg, ac yn wir ni fyddai'r ysgol i'w weld o unrhyw fannau cyhoeddus ar wahân i'r llwybr cyhoeddus sy'n croesi'r safle (a fydd yn cael ei wyro wedi'r datblygiad). Fe ystyrir bod y dyluniad a gyflwynwyd yn cynnig datblygiad a fyddai o raddfa a gwedd a fyddai'n briodol ar gyfer ei ddefnydd a'i safle. Byddai dyluniad yr adeilad newydd, gyda'i amrywiaeth o ddeunyddiau a siapiau to yn creu patrwm o ddatblygiad trefol a fyddai'n cyd-fynd â graddfa a dyluniad yr ardal gymysg o amgylch sy'n cynnwys adeiladau Ysgol Friars ag adeiladau anheddol Ffordd Penrhos. Fe fyddai'r edrychiad blaen (de) er yn fodern, yn adlewyrchu deunyddiau a phensaernïaeth leol trwy ei ddefnydd o garreg a'i raddfa eithaf ddomestig tra bydd y lliwiau tawel yn gweddu gyda'r goedwig gerllaw. Fe gredir felly, bod y dyluniad a gynhigir ar gyfer yr adeilad newydd yn gweddu'n dderbyniol gyda'i safle ymyl tref lled-wledig.

5.7 Fe fyddai ffurf y datblygiad a'i siâp pedol yn helpu cadw sŵn ac ymyrraeth ger yr adeilad er y byddai'n anorfod bydd dwysedd y gweithgarwch ar gyn safle ysgol Friars yn uwch nac ydi ar hyn o bryd gyda'i ddefnydd fel cae chwarae. Wedi dweud hynny, dim ond am oriau cyfyngedig bydd yr ysgol yn agored a'r rhan fwyaf o'r amser hynny bydd y plant yn yr adeilad. Ni chredir felly bydd niwed arwyddocaol yn deillio i fwynderau trigolion lleol oddi wrth weithgaredd dydd i ddydd yr ysgol.

5.8 Er gwaetha'r uchod fe godwyd sawl gwrthwynebiad yn ystod y broses ymgynghori gan drigolion Rhodfa Penrhos, a fwriedir ei defnyddio fel mynedfa ar gyfer trafnidiaeth adeiladu wrth ddatblygu'r safle. Maent yn datgan pryder ynghylch materion megis sŵn, llwch a llygredd ac fe ddisgwylir ymateb Uned Gwarchod y Cyhoedd i'r materion penodol hynny. Wedi dweud hynny, fe gredir y gellir goresgyn a rheoli'r materion hyn mewn modd derbyniol o sicrhau dulliau gwaith priodol trwy amodau cynllunio a thrwy gytuno Cynllun Rheolaeth Dulliau Adeiladu cyn dechrau ar y gwaith.

5.9 Ar y cyfan, ni chredir bydd y datblygiad hwn yn achosi niwed arwyddocaol i fwynderau'r ardal leol na'i thrigolion yn y tymor hir er, yn anorfod, fydd peth sŵn ac aflonyddwch yn ystod y cyfnod adeiladu. Fe gredir, o osod amodau priodol yn sgil derbyn sylwadau Uned Gwarchod y Cyhoedd, y gellid sicrhau bydd effaith mwynderol y gwaith adeiladu'n cael ei leihau cymaint ag sy'n ymarferol fel bod yr effeithiau niweidiol posibl ar lefel sy'n dderbyniol dros gyfnod byr. O weithredu fel yr uchod, fe gredir bydd y datblygiad yn dderbyniol dan bolisïau PCYFF 2 a PCYFF 3 y CDLL.

**Llecynnau Agored**

5.10 Mae safle'r adeilad ysgol newydd ar dir a glustnodwyd yn Llecyn Agored / Cae Chwarae wedi Gwarchod yn y CDLl. Mae Polisi ISA 4 y CDLl yn annog gwrthod cynhigion fydd yn arwain at golli llecynnau agored presennol, gan gynnwys mannau gwyrdd mwynderol, oni bai y gellid cwrdd â phedwar maen prawf penodol. Mae'r asesiad isod yn edrych ar y cynnig yng nghyd-destun y meini prawf hynny:

*1. Bod gormodedd cyffredinol o'r ddarpariaeth yn y gymuned;*

Mae oddeutu 0.8 ha o safle'r cais wedi ei glustnodi'n llecyn agored a bydd y rhan fwyaf o hwnnw'n cael ei golli dan yr ysgol newydd a'r llain galed fydd o'i chwmpas. Wedi dweud hynny fe fwriedir creu caeau chwarae newydd ar safle'r cyn ysgol, sydd oddeutu 1.1ha o faint gydag oddeutu 0.2ha o'r safle hwnnw am fod yn safle parcio. Ar y cyfan felly, ni fydd newid arwyddocaol yng nghyfanswm arwynebedd y ddarpariaeth o diroedd mwynderol agored ac felly ni fydd newid arwyddocaol yn y ddarpariaeth.

*2. Bod yr angen hirdymor ar gyfer y cyfleuster wedi darfod;*

Mae'r angen am gyfleuster cae chwarae yn parhau ac fe fydd yr hyn sy'n cael ei golli yn cael ei adleoli o fewn safle'r ysgol.

*3. Y gellir cael darpariaeth amgen o'r un safon mewn ardal ac sydd yr un mor hygyrch i'r gymuned leol dan sylw;*

Fe fydd y ddarpariaeth newydd o safon gyffelyb i'r hyn a gollir ac mewn safle sydd yr un mor hygyrch i'r gymuned.

*4. Y byddai ailddatblygu rhan fechan o'r safle yn arwain at gadw ac ehangu'r cyfleuster fel adnodd hamdden.*

Fe fyddai'r cyfleusterau chwarae newydd wedi eu dylunio'n bwrpasol i gwrdd ag anghenion cyfoes yr ysgol ac fe fyddent ymehangu ar y cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer y gymuned.

5.11 O ystyried yr uchod, ni chredir bydd newid arwyddocaol yn faint o dir agored fydd ar gael yn y gymuned ac felly mae'r cynnig yn dderbyniol dan bolisi ISA 4.

**Coed a Thirlunio**

5.12 Fe gyflwynwyd Adroddiad Coed gyda'r cais a oedd yn adnabod bod angen torri sawl coeden a thocio rhai eraill, gan gynnwys stribed o 11m i'w dorri o ymyl y goedwig sy'n ffinio a'r ffordd fynediad at yr ysgol newydd er mwyn galluogi creu ffordd o led ddigonol ynghyd a llwybr cerdded a beicio. Bwriedir lliniaru effeithiau'r gwaith hyn ac mae'r Adroddiad Coed yn argymell dulliau gweithredu sy'n dderbyniol gan Uned Goed y Cyngor. Fe fydd y mesurau hyn yn cynnwys plannu coed brodorol i ddigolledu'r rhai a gollir ac fe gredir ei fod yn holl bwysig sicrhau y cyflwynir cynllun tirlunio / plannu coed cyflawn i'w gytuno cyn dechrau ar y datblygiad. O osod amodau er sicrhau y dilynir argymhellion yr Adroddiad Coed a bod cynllun tirlunio / plannu coed yn cael ei gytuno, fe gredir bydd y datblygiad yn dderbyniol dan bolisi PCYFF 4 y CDLl.

**Bioamrywiaeth**

5.13 Mae'r safle'n rhannol o fewn Safle Bywyd Gwyllt Rhanbarthol Gorphwysfa ac fe gyflwynwyd Adroddiad Ecolegol gyda'r cais er asesu'r effeithiau posibl ar gynefinoedd y safle a gerllaw. Mae'r Uned Bioamrywiaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru yn datgan y dylid dilyn yn union y mesurau a nodir yn rhan 11.0 yr Arolwg Ecolegol (Gwelliannau a Lliniaru Bioamrywiaeth).

5.14 Dangosodd ddau arolwg rhagarweiniol nad oedd ystlumod yn defnyddio'r adeilad ysgol ond bod potensial i ystlumod ei defnyddio rhyw dro yn y dyfodol. Mae mesurau lliniaru wedi eu cynnig gan gynnwys gosod blychau ystlumod ac adar yn y goedlan ac ar yr adeilad newydd. Mae angen derbyn cynlluniau yn dangos lleoliadau'r blychau ystlumod ac adar yma cyn i'r gwaith gychwyn.

Mae'r Arolwg Ecolegol hefyd yn datgan bwriad i ail-archwilio'r ysgol bresennol am ystlumod cyn ei dymchwel yn 2020. Mae'r Uned Bioamrywiaeth yn cytuno y dylai hyn ddigwydd a bod angen amod cynllunio er sicrhau hynny.

5.15 Mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Eithinog oddeutu 80m i'r gogledd o'r safle. Dynodwyd y safle hwn oherwydd ei ddiddordeb o safbwynt ffyngau tir glaswellt ac mae CNC yn derbyn, o ddilyn mesurau addas i atal llygredd a rheoli gwastraff, nad ydyw'n debygol y byddai unrhyw niwed i'r cynefin hwn o ganiatáu'r cais.

5.16 Oherwydd maint y datblygiad fe fu'n rhaid sgrinio'r cais i weld os oes angen cwblhau Astudiaeth o Effeithiau Amgylcheddol llawn ond fe ddaethpwyd i'r casgliad nad yw astudiaeth o'r fath yn angenrheidiol yn yr achos hwn.

5.17 O sicrhau bod amodau priodol yn cael eu gosod ar y datblygiad fe gredir bydd y datblygiad hwn yn cwrdd gyda gofynion Polisïau PS19, AMG 5 ac AMG 6 y CDLL sy'n annog cynhigion i warchod, a lle bo'n briodol, gwella bioamrywiaeth yr ardal.

**Materion priffyrdd**

5.18 Nid oedd gan yr Uned Trafnidiaeth unrhyw wrthwynebiad i'r bwriad ond 'roeddynt yn argymell sicrhau y darperir y fynedfa gerbydol, llwybrau troed a'r holl ddarpariaeth barcio cyn agor yr ysgol newydd.

5.19 Mae'r cynlluniau'n cynnwys darparu llwybrau cyswllt ar droed ac ar feic, o Ffordd Penrhos, trwy'r safle ac fe fydd hyn yn cynorthwyo hybu dulliau teithio amgen ac yn cyd-fynd ag amcan y Ddeddf Teithio Lesol. Mae'r bwriad hefyd yn cynnwys parcio ychwanegol ar y safle, ar gyfer cerbydau cyffredin, safle penodol ar gyfer bysiau ac yn ffurfioli mannau gostwng o fewn y rhwydwaith ffyrdd yng nghyffiniau'r ysgol.

5.20 Mae bwriad defnyddio Rhodfa Penrhos ar gyfer rhan o'r cynllun rheoli traffig yn ystod y cyfnod adeiladu. Tydi'r stryd yma ddim wedi ei fabwysiadu fel priffordd gyhoeddus fodd bynnag mae llwybr cyhoeddus yn rhedeg ar ei hyd ac ar draws rhan o'r safle. Fel rhan o'r cais mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno dogfen 'Mynediad Cerbydol ar hyd Rhodfa Penrhos Rev P01) sy'n adnabod y math o gerbydau a fwriedir caniatáu mynediad iddynt ar hyd y ffordd yma ac mae'r Uned Trafnidiaeth yn cadarnhau fod y ddogfen honno'n dderbyniol.

5.21 Argymhellir ymestyn sgôp y gwaith gwelliannau ffordd i gynnwys mesurau priodol i arafu cyflymder traffig ar hyd Ffordd Penrhos ger cyffordd yr ysgol. Argymhellir yn ogystal edrych ar osod mesuriadau pellach fel arwyddion fflachio neu dwmpath 'speed table' ger y fynedfa i gyd-fynd gyda'r parth 20mya presennol.

5.22 Fel amodau / nodiadau priodol argymhellwyd amodau penodol yn ymwneud a darparu'r rhwydwaith ffyrdd/troedffyrdd/parcio yn unol â'r cynllun cyn agor yr ysgol, darparu mesurau arafu traffig (i'w gytuno gyda'r Uned Drafnidiaeth) ar ffordd Penrhos, ac amodau i reoli symudiadau traffig adeiladu yn ystod cyfnod

penodol o’r dydd. Yn ogystal argymhellir nodiadau safonol parthed cynnal arolwg cyflwr ffyrdd cyn cychwyn ac i gomisiynu ‘road safety audit’(cymal 2-4) er mwyn asesu ac addasu’r rhwydwaith ffyrdd a throedffyrdd newid fel bo angen.

5.23 O weithredu’n unol ag argymhellion yr Uned Trafnidiaeth fe gredir bod y cynllun yn cwrdd gyda gofynion polisïau PS 4, TRA 2 & TRA 4 sy’n anelu at sicrhau darpariaeth ar gyfer trafnidiaeth sy’n gynaliadwy ac yn ddiogel ar gyfer yr holl ddefnyddwyr.

**Llwybr Cyhoeddus**

5.24 Mae Llwybr Cyhoeddus Rhif 25 Cymuned Bangor yn croesi’r safle ac mae’r cais cynllunio’n cynnwys rhoi’r hawl i wyro’r llwybr yn swyddogol i ddilyn llwybr troed answyddogol sydd eisoes wedi ei greu o amgylch caeau chwarae Ysgol Friars. Mae’r llwybr answyddogol hwn ym mherchnogaeth y Cyngor Sir ac wedi ei wynebu gyda tharmac a hwn yw’r llwybr a’i defnyddir gan y cyhoedd wrth groesi’r safle.

5.25 Mae’r Uned Llwybrau yn fodlon gyda’r gwyriad arfaethedig ond maent hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd y llwybr answyddogol ac yn nodi, er nad yw’n llwybr dynodedig ar hyn o bryd, mae o bwys arbennig i’r gymuned leol. Gyda hyn mewn golwg, maent yn awyddus i weld y llwybr hwn yn cael ei warchod yn ystod y gwaith adeiladu.

**Materion Draenio**

5.26 Yn unol â disgwyliadau Polisi PS 6, sy’n gofyn sicrhau bod tystiolaeth briodol bod ystyriaeth lawn wedi ei roi i ganlyniadau posibl newid hinsawdd, fe dderbyniwyd Strategaeth Ddraenio fel rhan o’r cais. Mae hon yn datgan bod ymchwiliad wedi nodi bod lefel y dŵr daear ar y safle’n uchel iawn (yn nodweddiadol 250mm o dan yr wyneb). Mae’r strategaeth hefyd yn adnabod bod dŵr yn llifo o’r safle trwy gwlfert sydd yn y pen draw yn arwain dan Rhodfa Penrhos. Mae'r cwlfert mewn cyflwr gwael ac nid oes siambrau mynediad i ganiatáu cynnal a chadw. Bwriedir felly, fel rhan o'r gwaith o ail ddatblygu’r ysgol, gosod cwlfert newydd ar draws y safle fel datrysiad hirdymor ar gyfer draenio safle’r ysgol.

5.27 Mae Dŵr Cymru’n cadarnhau bod gallu digonol o fewn system garthffosiaeth i ymdopi gyda’r llif dŵr aflan o’r ysgol. Ni chododd Dŵr Cymru na Chyfoeth Naturiol Cymru wrthwynebiad i’r cynlluniau ac fe ddisgwylir sylwadau’r Uned Draenio Dŵr.

## 6. Casgliadau:

6.1 O ystyried y materion cynllunio perthnasol yn yr achos hwn mae'r datblygiad arfaethedig yn cwrdd â llawer o amcanion Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn trwy gynnig datblygiad o ddyluniad safonol, cyfoes a phriodol i'w leoliad, a fydd yn cyfrannu’n sylweddol tuag at ddiwallu’r angen am lefydd

addysgol lleol gan ehangu a gwella'r ddarpariaeth bresennol sydd ar y safle. Fe ystyriwyd yr holl ystyriaethau cynllunio materol, gan gynnwys yr holl faterion a godwyd gan wrthwynebwyr, ac ni chredir fod y bwriad yn debygol o achosi effeithiau andwyol annerbyniol hirdymor i drigolion gerllaw na'r gymuned yn gyffredinol ac fe fydd modd rheoli unrhyw effeithiau byrdymor trwy osod amodau priodol ar y datblygiad.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Rheolwr Cynllunio ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i dderbyn sylwadau cadarnhaol oddi wrth Uned Gwarchod y Cyhoedd a'r Uned Draenio Tir ynghyd â chanlyniadau cadarnhaol i'r broses o ymgynghori'r gwyriad i'r llwybr cyhoeddus. Dylid hefyd cynnwys yr amodau canlynol:

1. Amser (5 mlynedd)
2. Yn unol â'r cynlluniau
3. Cytuno ar ddeunyddiau a lliwiau terfynol
4. Amodau trafnidiaeth
5. Amod Dŵr Cymru
6. Cyflwyno a chytuno Datganiad Dulliau Adeiladu Amgylcheddol manwl - bydd y Datganiad yn cynnwys Cynllun Rheoli Gwastraff ar gyfer y cyfnod o ddatblygu'r safle.
7. Cyflwyno a chytuno Cynllun Tirlunio Manwl
8. Cyflwyno a chytuno Cynllun Lliniaru Ecolegol manwl.
9. Rhaid dilyn yn union argymhellion yr Arolwg Ecolegol
10. Rhaid dilyn yn union argymhellion yr Adroddiad Coed
11. Cyn i'r ysgol newydd ddod yn weithredol rhaid cyflwyno a chytuno Cynllun Dymchwel ar gyfer yr ysgol bresennol a fydd yn cynnwys amserlen ar gyfer y gwaith dymchwel, adfer tir a thirweddu ynghyd ag amserlen ar gyfer arolwg ystlumod ychwanegol a fydd i'w gwblhau cyn i'r gwaith ddymchwel ddigwydd.
12. Cyfyngiadau oriau gwaith yn ystod y cyfnod adeiladu (i'w gytuno gyda'r Uned Trafnidiaeth a'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd)
13. Unrhyw amodau ychwanegol angenrheidiol gan y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd
14. Cytuno'r ymdriniaeth o'r ffiniau

<u>Nodiadau</u>

1. Dŵr Cymru
2. Cyfoeth Naturiol Cymru
3. Priffyrdd
4. Uned Llwybrau